**EITEM AR YR AGENDA: 17**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Mawrth 2007**

## DATBLYGU BREINLEN CYMRU AR GYFER CYNORTHWYO A DATBLYGU AELODAU

**Adroddiad gan Rhian Evans,**
**Swyddog Cyswllt Aelodau**

## Diben yr Adroddiad

**1.** I geisio cael yr Awdurdod i sefydlu gweithgor ymroddedig i fod yn gyfrifol am adnabod anghenion datblygu a chynorthwyo aelodau, a wedi hyn, symud cais yr Awdurdod i dderbyn cydnabyddiaeth o dan y Freinlen ar Gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau ymlaen.

**2.** I geiso barn yr aelodau ar ddichonadwy cyfuno cyfrifoldeb y Gweithgor Cynorthwyo a Datblygu Aelodau gyda'r Gweithgor Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol a sefydlwyd yn ddiweddar.

## Cefndir

**3.** Mae'r Freinlen ar Gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau (y Freinlen) yn wobr sydd wedi cael ei datblygu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar y cyd gydag awdurdodau lleol i gydnabod cyflawniadau'r awdurdodau wrth gynorthwyo a datblygu aelodau. Amcanion lefel uchel y Freinlen yw i sicrhau fod awdurdodau yn cael eu gwasanaethu gan aelodau effeithiol sy'n gweithio i warantu a gwella llywodraethu corfforaethol, democratiaeth leol a gwasanaethau lleol.

**Cefndir** *(parhad)*

**4.** Gan fod y mwyafrif o awdurdodau lleol eisoes wedi ymgysylltu, er ar lefelau gwahanol, gyda Breinlen yr awdurdodau unedol a chyda golwg ar osgoi dyblygiad diangen o wasanaethau a'r ddarpariaeth o hyfforddiant, datblygwyd Breinlen ar wahân ar gyfer yr awdurdodau tân ac achub. Bwriad y Freinlen hon yw cydnabod y gefnogaeth benodol roddir i aelodau yn eu rôl ar yr awdurdodau tân ac achub.

**5.** Bydd aelodau yn cofio fod yr Awdurdod, yn ei gyfarfod ar 23ain Hydref 2006, wedi ystyried a chymeradwyo y Freinlen ddrafft ar Gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau a'r disgrifiadau rôl a manylebau person cysylltiedig. Roedd hefyd wedi penderfynu "ymgeisio am gydnabyddiaeth dan y Freinlen maes o law."

**6.** Ers hynny, yn ei Gynllun Lleihau Risg ar gyfer 2007/08 mae'r Awdurdod wedi adnabod datblygiad aelodau fel un cerbyd i liniaru risg corfforaethol. Roedd yr Awdurdod hefyd yn disgwyl bod mewn sefyllfa i dderbyn y wobr lefel sylfaenol o dan y Freinlen cyn diwedd y flwyddyn 2007/08.

**Gwybodaeth**

**7.** Un o angenrheidiau'r Freinlen yw fod gan awdurdodau Weithgor Cynorthwyo a Datblygu Aelodau yn ei le, sy'n cynnwys aelodau a swyddogion, fydd yn gyfrifol am noddi rhaglen a strategaeth cynorthwyo a datblygu aelodau. Yn ychwanegol, maes o law, bydd angen penodi Hyrwyddwr Cynorthwyo a Datblygu Aelodau a fydd yn derbyn y cyfrifoldeb am hyrwyddo'r Freinlen ymysg ei g(ch)yd-aelodau ar yr Awdurdod.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

**8.** Byddai sefydlu'r fath Weithgor o fewn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar hyn o bryd, yn ogystal â chefnogi'r Awdurdod yn ei uchelgais o ennill statws Breinlen, hefyd yn gyfrifol am symud yr agenda ymlaen a sicrhau ei fod yn cyflawni'r nod mae wedi gosod i'w hun yn y Cynllun Lleihau Risg ar gyfer 2007/08.

**9.** Wedi ei sefydlu, un o dasgau cychwynnol y Gweithgor fyddai i ymgymryd â hunanasesiad yn erbyn meini prawf y Freinlen i asesu pa fesurau sydd angen bod mewn lle cyn i'r Awdurdod fod mewn safle i arwyddo Datganiad o Fwriad i wneud cais am gydnabyddiaeth o dan y Freinlen. Ar ôl i'r Datganiad yma gael ei arwyddo, bydd gan yr Awdurdod 6 mis i gwblhau ei gais i CLlLC.

**Y Gweithgor Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol**

**10.** Yn ei gyfarfod ar 24ain o Ionawr 2007 fe benderfynodd y Panel Gweithredol, mewn ymateb i'r cynnydd annerbyniol yn y nifer o farwolaethau oherwydd tân yn yr ardal, benodi Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol i wasanaethu ar Weithgor. Amcanion y Gweithgor hwn, sy'n cynnwys un aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer pob ardal awdurdod unedol, yw i wella'r ffordd mae'r Awdurdod yn rhyngweithio ar lefel wleidyddol a strategol gyda'r awdurdodau unedol yn nhermau gweithgareddau diogelwch cymunedol ac i hyrwyddo mentrau diogelwch cymunedol y Gwasanaeth i gyd-aelodau.

**11.** Wrth sefydlu'r Gweithgor hwn, roedd aelodau a swyddogion o'r farn fod mwy o rôl i aelodau chwarae mewn diogelwch cymunedol. Byddai ffurfio y Gweithgor hwn hefyd yn cynorthwyo'r Awdurdod i ddatblygu perthynas weithio a phrotocolau agosach gyda'r awdurdodau unedol – amcan arall mae wedi gosod iddo'i hun yng Nghynllun Lleihau Risg 2007/08.

**Y Gweithgor Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol**
*(parhad)*

**12.** Erbyn hyn mae'r Hyrwyddwr Diogelwch Cymunedol wedi eu penodi a bydd y Gweithgor yn cynnal ei gyfarfod cyntaf yn y dyfodol agos. Cynrychiolwyr pob ardal yw:
Conwy – y Cynghorydd Ron Peacock
Sir Ddinbych – y Cynghorydd John Smith
Sir y Fflint – y Cynghorydd Ted Evans
Gwynedd – y Cynghorydd Trevor Roberts
Wrecsam – y Cynghorydd Ted George
Ynys Môn – y Cynghorydd John Chorlton

**13.** Byddai cyfranogaeth yr aelodau ar Weithgor megis yr un enwyd uchod, yn ychwanegol i ledaenu persbectif a dull y Gwasanaeth wrth ymdrin gyda materion diogelwch cymunedol, hefyd yn cynorthwyo datblygiad personol yr aelodau. Disgwylir i'r Gweithgor Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol gyfarfod oddeutu pedair gwaith y flwyddyn, yn union wedi cyfarfodydd busnes chwarterol yr Awdurdod.

**Gweithgor Cynorthwyo a Datblygu Aelodau**

**14.** Yn ddelfrydol, byddai nifer cynrychiolwyr yr aelodau ar y Gweithgor Cynorthwyo a Datblygu rhwng chwech ag wyth aelod, gydag o leiaf un Prif Swyddog a chynrychiolydd o Ganolfan Sgiliau, Dysgu a Datblygu'r Gwasanaeth. Gellir galw ar swyddogion eraill y gwasanaeth pan fo'r angen. Yn ddibynnol ar aelodaeth y Gweithgor, gellid cynnal ei gyfarfodydd yr un diwrnod ag unai cyfarfodydd yr Awdurdod llawn neu'r Panel Gweithredol.

## **Gweithgor Cynorthwyo a Datblygu Aelodau** *(parhad)*

**15.** Felly, efallai bydd aelodau yn dymuno ystyried, fel opsiwn bosib i symud y rhaglen cynorthwyo a datblygu ymlaen, i ymestyn cyfrifoldeb y Gweithgor Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol i gynnwys Cynorthwyo a Datblygu Aelodau. Byddai gan mabwysiadu'r dull hwn ei fuddion – byddai'n gost effeithiol ac yn arddangos defnydd effeithlon o adnoddau; a, thra'n hyrwyddo materion diogelwch cymunedol, byddai'r Gweithgor mewn safle delfrydol i adnabod anghenion cefnogaeth a datblygu penodol aelodau i'w galluogi hwy i fod yn gysylltiadau effeithiol ac yn llysgenhadon rhwng y Gwasanaeth a'u hawdurdodau cartref ac i'r gwrthwyneb.

### **Argymhellion**

**16.** Fod aelodau:

**16.1** yn cymeradwyo sefydlu Gweithgor i hyrwyddo datblygu a chynorthwyo aelodau;

**16.2** yn cymeradwyo cyfuno cyfrifoldeb y Gweithgor Cynorthwyo a Datblygu Aelodau gydag un y Gweithgor Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol;

**16.3** a bod y Gweithgor yn cael y dasg o asesu safle'r Awdurdod mewn perthynas â gwneud cais am statws cydnabyddiaeth dan y Freinlen a, maes o law, gyda llunio cais yr Awdurdod ar gyfer ei gymeradwyo i'w gyflwyno.